Pwyllgor Cyllid
Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18
WGDB_17-18 11 Prifysgol Caerdydd

Cynigion cyllideb drafft Llywodraeth Cymru 2017/18

Ymateb Prifysgol Caerdydd i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cymru

Cyswllt: Is-Ganghellor, yr Athro Colin Riordan | Ffôn: [redacted] | Ebost: [redacted]

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo'n llawn i gydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol ac i wneud economi Cymru'n fwy ffyniannus, gan oresgyn ffactorau sy'n rhwystro twf.

Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â lle i fuddsoddi cyllid cyhoeddus. Gall buddsoddi mewn prifysgolion ddwyn buddiannau i Gymru. Mae gwerth yr addysg yr ydym yn ei chynnig, ynghyd â'n hadnoddau ymchwil a datblygu, yn denu buddsoddiad yng Nghymru (yn ôl adroddiad annibynnol gan London Economics ym mis Hydref 2015,[2] mae Prifysgol Caerdydd yn cyfrannu £2.7 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn, ac yn cynhyrchu dros £6 am bob £1 yr ydym yn ei gwario).

Mae buddsoddi mewn prifysgolion hefyd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o wella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael, er mwyn defnyddio tystiolaeth i lywio polisïau.

C1: Pa effaith, yn eich barn chi, gafodd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17?

Rydym yn ddiolchgar bod y pwyllgor wedi gallu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i leihau'r toriadau i gyllideb 2016/17 o gymharu â'r toriadau a gynlluniwyd yn wreiddiol. Rydym yn deall y pwysau ar gyllid cyhoeddus ac yn gweithio i gynyddu ein hincwm o ffynonellau ar wahân i gyllid cyhoeddus, ac yn rheoli ein costau wrth wneud hynny. Rydym am fanteisio ar ein cryfderau er lles Cymru, ac mae gwydnwch ariannol yn egwyddor arweiniol syml ar gyfer yr hyn a wnawn. Ceir gostyngiadau yng nghyllid cyhoeddus ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn digwydd ar adeg pan mae modd i sefydliadau yn Lloegr sy'n cystadlu â ni gynyddu ei hincwm mewn ffyrdd na allwn ni, tra bod cyllid ar gyfer pynciau drutach – gan gynnwys Meddygaeth a Deintyddiaeth a chyllid arloesedd – wedi eu hamddiffyn.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgor yn gallu ystyried gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid cynorthwyo prifysgolion yng Nghymru i gystadlu ar yr un telerau â phrifysgolion eraill yn y DU. Bydd hyn yn galluogi prifysgolion yng Nghymru i barhau i ddenu'r myfyrwyr â'r cymwysterau gorau sydd â'r gallu i lwyddo, yn ogystal â pharhau i wneud gwaith ymchwil ac arloesedd rhagorol sy'n dwyn buddiannau go iawn i Gymru.

[2] Effaith economaidd a chymdeithasol Prifysgol Caerdydd, London Economics, Hydref 2015

C2: Pa ddisgwyliadau sydd gennych ynglŷn â chynigion cyllideb drafft 2017-18?

Mae cyllideb 2016/17 wedi ein galluogi i barhau i fuddsoddi mewn addysg ac ymchwil sydd o fudd i Gymru, ac a fydd yn cael effaith fyd-eang. Bydd buddsoddi'n gynaliadwy mewn prifysgolion yng Nghymru, boed hynny drwy gyllid uniongyrchol neu amgylchedd polisïau sy'n ein galluogi i gryfhau ein gwydnwch ariannol a chystadlu am y talentau gorau, yn hollbwysig i'n galluogi i barhau i sicrhau buddiannau cyhoeddus ac economaidd i Gymru.

Q4. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb, a oes gennych unrhyw gwestiynau penodol ynglŷn â'r meysydd a nodir isod?

…

– Paratoi ar gyfer effeithiau pleidlais y DU i adael yr UE

Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ystyried y llwybr gorau i Gymru wrth i Brydain adael yr UE. Er gwaethaf yr heriau a ddaw yn sgîl y bleidlais i adael yr UE, rydym wedi ymrwymo i ddod o hyd i gyfleoedd yn y cyd-destun rhyngwladol newydd. Rydym am barhau i ffurfio mentrau cydweithredol ag Ewrop a gweddill y byd. Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, hoffem ddarganfod y ffordd fwyaf effeithiol o barhau i fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesedd.

Ansicrwydd yw'r risg fwyaf i Brifysgolion, gan fod hyn yn creu ansefydlogrwydd o ran buddsoddi. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan Ganghellor y DU ynglŷn â Chronfeydd Strwythurol a phrosiectau Horizon 2020, a'r gwaith y mae WEFO yn ei wneud i sicrhau cyllid. Byddai unrhyw sicrwydd pellach o du Lywodraeth Cymru yn helpu i gynyddu mwy fyth yr hyder mewn buddsoddi'n barhaus.

Y maes arall yr hoffem weithio arno gyda llywodraethau Cymru a'r DU yw rhoi mwy o sicrwydd i'n staff a'n myfyrwyr o'r UE. Y prif feysydd y ceir ansicrwydd yn eu cylch yn y cyd-destun hwn yw eglurder ynglŷn â chymorth ariannol a ffioedd i fyfyrwyr yr UE, ac eglurder ynglŷn â rheolau mewnfudo i fyfyrwyr a staff. Byddai gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o'r UE yn cael effaith ariannol arnom ac yn newid amrywiaeth y myfyrwyr sydd gennym. Mae llawer o'n timau ymchwil blaenllaw yn elwa ar amgylchedd sy'n hwyluso symudedd rhyngwladol.